

Cytundeb Cynnwys y Cyhoedd

Diolch am eich diddordeb mewn cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yma i'ch cefnogi, i wneud eich profiad yn bositif ac yn werth chweil. Mae ein cytundeb cynnwys y cyhoedd yn dweud wrthy'ch chi beth y gallw'ch chi ei ddisgwyl oddi wrthym ni i wneud eich profiad o gael eich cynnwys yn un sydd o fudd ac yn werth chweil, yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir oddi wrthy'ch chi tra'ch bod yn cael eich cynnwys. Trwy roi tic yn y blwch cytuno i gael eich cynnwys ar y ffurflen mynegi diddordeb ar gyfer cyfleoedd cyfredol, rydych chi'n cadarnhau eich bod chi'n ymrwymo i'r cytundeb hwn.

Rhywbeth cwbl wirfoddol yw hyn, ac nid yw'n gona'r contract cyflogaeth. Gallwn ni, neu gallw'ch chi ei ganslo ar unrhyw adeg.

Wrth ymgeisio am y cyfle hwn:

Yr hyn y gallw'ch chi ei ddisgwyl oddi wrthym ni:

- Eich cyflwyno i'r cyfle
- Darparu hyfforddiant priodol
- Eich cefnogi a rhoi cyfarwyddyd ichi
- Ad-dalu treuliau allan o boced a chynnig tâl os yw'r tîm yn darparu hynny
- Eich trin â pharch ac yn gyfrinachol
- Hybu cymuned gynhwysol ac amrywiol
- Ymateb i'ch pryderon neu'ch cwynion mor gyflym â phosibl

Yr hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl oddi wrthy'ch chi:

- Gwneud yn fawr o gyfleoedd am hyfforddiant, cefnogaeth a chyfarwyddyd
- Cwblhau tasgau yn unol â chanllawiau cytunedig cystal ag y gallw'ch
- Rhoi cymaint o rybudd â phosibl os na allw'ch chi barhau i gael eich cynnwys
- Trin y rheini rydych chi'n dod i gysylltiad â nhw tra'ch bod yn cael eich cynnwys â pharch a sicrhau cyfrinachedd
- Cefnogi cymuned gynhwysol ac amrywiol
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw beth sy'n achos pryder o ran eich diogelwch/ lles chi neu o ran diogelwch/ lles pobl eraill